Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Cynllun Deisebau

Mae deisebu yn un ffordd y gall unigolion, grwpiau cymunedol a sefydliadau gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd, drwy godi materion o bryder cyhoeddus gyda'r Cyngor a chaniatáu i Aelodau Etholedig ystyried yr angen am newid yn y Fwrdeistref Sirol. Cydnabyddir y gall deisebau gael canlyniadau cadarnhaol sy'n arwain at newid neu'n llywio dadl.

Cyn ystyried cyflwyno deiseb ai peidio, efallai y byddwch am drafod y mater gyda'ch Cynghorydd Ward lleol a allai eich helpu neu esbonio sut i wneud cynrychioliadau ar bwnc penodol i'r person cywir yn y Cyngor. Mae manylion ar sut i gysylltu â'ch Cynghorydd Bwrdeistref Sirol lleol ar gael ar wefan y Cyngor.

Pwy all godi deiseb?

Gall unrhyw un sy'n byw, yn gweithio neu'n astudio yn y Fwrdeistref Sirol lofnodi neu gyflwyno deiseb, gan gynnwys y rhai dan 18 oed. Gall deisebau gael eu cyflwyno gennych chi neu gan Gynghorydd.

Fel arfer, dylai deisebau gael o leiaf 100 o lofnodion er mwyn eu dilysu. Fodd bynnag, os yw eich deiseb yn cynnwys llai na'r nifer gofynnol o lofnodion, ond eich bod yn gallu dangos, mewn perthynas â mater sy'n peri pryder arbennig o leol, nad oedd yn bosibl sicrhau'r llofnodion gofynnol, efallai y bydd y Swyddog Monitro'n dal i ystyried eich deiseb o dan y pennawd hwn. Cynllun.

Beth yw'r canllawiau ar gyfer cyflwyno deiseb?

Bydd y Cyngor yn ystyried pob deiseb sy'n dod o fewn cwmpas y Cynllun hwn. Gellir cyflwyno deisebau i'r Cyngor naill ai ar bapur neu'n electronig. Mae gofynion y Cynllun yn berthnasol i ddeisebau papur ac e-ddeisebau.

Rhaid i ddeisebau a gyflwynir i'r Cyngor gynnwys:

- datganiad clir, byr yn ymdrin â phwnc y ddeiseb. Bydd y ddeiseb yn cael ei dychwelyd os yw'n aneglur;
- Y camau y mae'r deisebwyr am i'r Cyngor eu cymryd;
- Cadarnhad ei bod yn ymwneud â mater y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdano ac sy'n effeithio ar y Cyngor neu ei ardal;
- Enw a chyfeiriad a llofnod y cefnogwyr hynny. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i geisio gwirio pob llofnod sydd ynghlwm wrth ddeiseb. Gall hyn fod yn arwyddocaol wrth sefydlu a yw deiseb wedi cael y nifer angenrheidiol o lofnodion i sbarduno proses benodol. Sicrhewch fod pob llofnodwr wedi rhoi cyfeiriad a chod post dilys;
- Manylion cyswllt, gan gynnwys cyfeiriad trefnydd y ddeiseb.

Gellir anfon deisebau papur at:
**Gwasanaethau Democrataidd, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB**

Efallai y byddwch am gysylltu â'r Gwasanaethau Democrataidd er mwyn sicrhau bod eich deiseb yn bodloni'r meini prawf a nodir uchod, cyn dechrau casglu llofnodion, gan mai dim ond deisebau derbyniadwy all gael eu hystyried gan y Cyngor.

Gellir cyflwyno e-ddeisebau drwy system y Cyngor sydd i'w gweld ar wefan y Cyngor. Ni dderbynnir deisebau o systemau deisebau ar-lein allanol eraill. Oni bai y cytunir yn wahanol yn dilyn trafodaethau gyda threfnydd y ddeiseb, bydd e-ddeiseb yn parhau i fod ar agor i'w llofnodi am gyfnod o 30 diwrnod ond gallwch ddewis amserlen fyrrach neu hirach mewn ymgynghoriad â'r Gwasanaethau Democrataidd.

Er mwyn cyflwyno e-ddeiseb bydd angen i chi gwblhau'r cofrestriad ar-lein ar dudalen ddeiseb y Cyngor. Mae cofrestru'n syml gan ofyn am ychydig o fanylion rhag ofn y bydd angen i ni gysylltu â chi. Nid yw'r Cyngor yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am y deisebau ar y tudalennau gwe hyn. Byddwn yn adolygu geiriad y ddeiseb er mwyn sicrhau ei fod yn briodol cyn ei chyhoeddi. Gallwch redeg deiseb ar-lein ar yr un pryd â deiseb bapur, gan gyfuno'r ddwy cyn eu hanfon at y Cyngor, er y dylai trefnydd y ddeiseb hepgor enwau ailadroddus. Dylech anfon y ddeiseb bapur ar yr un pryd â dyddiad cau'r ddeiseb ar-lein fel bod yr holl lofnodion yn cael eu cyfrif. Pan fydd e-ddeiseb wedi cau caiff ei chyflwyno'n awtomatig i'r Gwasanaethau Democrataidd.

<u>'Llofnodi' e-ddeiseb</u>

Gallwch weld yr holl e-ddeisebau sydd ar gael i'w llofnodi ar hyn o bryd ar wefan y Cyngor. Pan fyddwch yn llofnodi e-ddeiseb gofynnir i chi roi eich enw, eich cod post a chyfeiriad e-bost dilys at ddibenion dilysu. Unwaith y bydd y cam hwn wedi'i gwblhau cewch eich ychwanegu fel llofnodwr y ddeiseb. Gall pobl sy'n ymweld â'r e-ddeiseb weld eich enw ond ni fydd eich manylion cyswllt yn weladwy.

<u>Beth fydd y Cyngor yn ei wneud o dderbyn fy neiseb?</u>

Anfonir cydnabyddiaeth at drefnydd y ddeiseb o fewn 10 diwrnod gwaith i dderbyn y ddeiseb. Bydd yn eu hysbysu o beth mae'r Cyngor yn bwriadu'i wneud â'r ddeiseb a phryd y gallwch ddisgwyl clywed gan y Cyngor.

Efallai bod y mater a godwyd gan eich deiseb yn dderbyniol mewn egwyddor, ond bod rhai agweddau ar y geiriad y tu allan i'r rheolau. Yn y fath sefyllfa, bydd y Gwasanaethau Democrataidd yn cysylltu â chi i awgrymu ffyrdd y gallwch newid y geiriad er mwyn cydymffurfio'n llawn â'r rheolau cyn ei gyhoeddi.

Caiff copi o'r ddeiseb ei anfon at y Swyddog Monitro, y Cyfarwyddwr Corfforaethol perthnasol, unrhyw Aelod Etholedig sy'n cynrychioli ardal y mae'r ddeiseb yn effeithio arni ac at yr Aelod Cabinet perthnasol hefyd. Unwaith y bydd y ddeiseb wedi'i derbyn bydd yn dod yn ddogfen gyhoeddus y gellir cael mynediad ati drwy'r wefan, heblaw ei bod yn amhriodol gwneud hynny. Dylech ofalu nad ydych yn cynnwys unrhyw wybodaeth na ddylid ei gwneud yn gyhoeddus.

Bydd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn cadw cofrestr o'r holl ddeisebau a ddaw i law.

Sut bydd y Cyngor yn ymateb i'm deiseb?

Bydd ymateb i ddeiseb yn dibynnu ar yr hyn y mae deiseb yn gofyn amdano a faint o bobl sydd wedi’i llofnodi, ond gall gynnwys un neu fwy o’r canlynol:

- codi cyhoeddusrwydd ac ymwybyddiaeth o fater
- cyflwyno deiseb i gyfarfod Cabinet sy'n ystyried swyddogaethau Gweithredol
- cymryd y camau y gofynnir amdanynt yn y ddeiseb (naill ai o dan bwerau dirprwyedig swyddogion neu fel arall fel sy'n briodol ym mhob amgylchiad)
- mynd â'r mater i'r Cyngor llawn fel y gellir ystyried y ddeiseb
- cynnal arolwg
- comisiynu ymchwil
- ysgrifennu at drefnydd y ddeiseb yn nodi barn y Cyngor ynglŷn â’r cais yn y ddeiseb
- cyfeirio'r ddeiseb at y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu
- cynnal cyfarfod gyda threfnydd y deisebwyr
- cynnal cyfarfod cyhoeddus
- anfon eich deiseb ymlaen at / lobïo Corff arall os yw'n rhywbeth nad oes gan y Cyngor reolaeth uniongyrchol drosto
- o safbwynt materion yr ymdrinnir â nhw gan awdurdod dirprwyedig, bydd y swyddog cyfrifol yn ymateb i'r ddeiseb
- rhyw ymateb priodol arall.

Gall ymateb y Cyngor hefyd ddibynnu ar nifer y bobl sydd wedi llofnodi’r ddeiseb:

| **Nifer y llofnodwyr** | **Ymateb** |
|---|---|
| Llai na 100 | Ymateb gan y Gyfarwyddiaeth berthnasol (yn cael ei drin fel gohebiaeth arferol). |
| 100 neu fwy | Ymateb gan yr Aelod Cabinet perthnasol (yn cael ei drin fel gohebiaeth arferol). |
| O leiaf 500 | Ymateb gan yr Aelod Cabinet perthnasol a’r ymateb wedi’i gyhoeddi ar wefan y Cyngor. |
| O leiaf 750 | Atgyfeirio ar gyfer dadl mewn cyfarfod o'r Cyngor Llawn. |

Bydd y Cyngor bob amser yn eich hysbysu o’r camau a gymerwyd.

Os yw eich deiseb yn cynnwys llai na’r nifer gofynnol o lofnodion ond eich bod yn gallu dangos, yng nghyswllt mater lleol sy’n peri pryder, yn syml iawn, nad oedd yn bosibl sicrhau’r nifer gofynnol o lofnodion, mae’n bosib y gwnaiff y Swyddog Monitro’n ystyried eich deiseb o dan y cynllun hwn.

**Cyngor Llawn**

Os yw’r ddeiseb wedi sicrhau digon o lofnodion i sbarduno dadl yn y Cyngor llawn yna bydd y gydnabyddiaeth sy’n cadarnhau hyn yn eich hysbysu o pryd a ble y cynhelir y cyfarfod. Os bydd angen ymchwilio ymhellach i'r ddeiseb, fe’ch hysbysir o ba gamau y bwriadwn eu cymryd. Os cyflwynir y ddeiseb i gyfarfod o’r Cyngor llawn bydd y canlynol yn berthnasol:

Bydd y Cyngor yn ymdrechu i ystyried y ddeiseb yn ei gyfarfod nesaf, er efallai na fydd hyn yn bosibl ar rai achlysuron a chaiff ei hystyriaeth wedyn yn y cyfarfod dilynol. Ni ellir cyflwyno deisebau i'r Cyfarfod Blynyddol, unrhyw Gyfarfod Arbennig o'r Cyngor nac i'r cyfarfod sy'n pennu cyllideb y Cyngor. Ni chaiff mwy nag un ddeiseb ei hystyried mewn cyfarfod arferol o'r Cyngor.

Caiff trefnydd y ddeiseb ei hysbysu o ddyddiad ac amser cyfarfod y Cyngor a bydd y Gwasanaethau Democrataidd yn cysylltu â nhw i'w hysbysu o'r broses yn unol â'r Cyfansoddiad. Caiff yr eitem ei chyhoeddi ar agenda'r Cyngor gan fanylu ar destun y ddeiseb. Bydd trefnydd y ddeiseb yn derbyn cadarnhad ysgrifenedig o benderfyniad y Cyngor. Caiff y cadarnhad hwn hefyd ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Yng nghyfarfod y Cyngor gall trefnydd y ddeiseb (neu unrhyw berson a awdurdodwyd ganddo/ganddi) amlinellu'r cais, y rheswm dros y cais ar yr amod na chaiff y trefnydd siarad am fwy na thair munud beth bynnag. Yna caiff yr Aelod Cabinet perthnasol hawl i ymateb a bydd y Cyngor yn trafod y ddeiseb. Rhoddir hawl i drefnydd y ddeiseb ymateb am gyfnod pellach na fydd yn fwy na thri munud ar ddiwedd y ddadl a chyn gwneud penderfyniad terfynol neu bleidlais. Bydd y ddadl yn parhau am hyd at 30 munud.

Bydd y Cyngor yn penderfynu sut i ymateb i'r ddeiseb yn y cyfarfod hwn. Gall benderfynu cymryd y camau y mae'r ddeiseb yn gofyn amdanynt, peidio â gweithredu ymhellach a pheidio â gofyn am ymchwiliad pellach h.y. drwy adolygiad craffu i'r mater neu gyfeirio'r mater at y Gyfarwyddiaeth berthnasol i ymateb. Os yw'r mater yn un sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor Gwaith neu Bwyllgor arall o'r Cyngor wneud y penderfyniad terfynol, bydd y Cyngor yn penderfynu a ddylid gwneud argymhellion i lywio'r penderfyniad hwnnw.

<u>Ni chymerir unrhyw gamau pellach</u>

Bydd gan y Swyddog Monitro ddisgresiwn i benderfynu a yw deiseb yn bodloni'r meini prawf a nodir yn y Cynllun.

Dyma'r amgylchiadau y gellir penderfynu na fydd unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd mewn ymateb i'r ddeiseb:

- Nid yw'r ddeiseb yn glir
- Nid yw deiseb o fewn cylch gorchwyl y Cyngor
- Gwybodaeth anghyflawn neu annilys megis dim cyfeiriad llawn
- Dim digon o lofnodion dilys
- Ailadrodd deisebau – ni fydd deiseb syn dod i law o fewn 6 mis i ddeiseb arall ar yr un pwnc yn cael ei hystyried gan y Cyngor.
- Gwrthodir deiseb os yw, ym marn y Swyddog Deisebau, yn cynnwys iaith ymfflamychol, ddifrïol neu bryfoclyd, yn anghwrtais, yn ddifenwol neu'n flinderus.
- Os yw'r ddeiseb yr un fath neu'n rhy debyg i ddeiseb a gyflwynwyd yn ystod y 6 mis diwethaf
- Yn datgelu gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig yn unol ag Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972

- Yn datgelu deunydd sy'n fasnachol sensitif, neu a allai achosi trallod neu golled bersonol
- Yn cynnwys datganiadau hysbysebu
- Ni chaniateir deisebau sydd yn eu hanfod yn geisiadau Rhyddid Gwybodaeth, sylwadau, canmoliaeth neu gwynion
- Yn cyfeirio at fater sy'n destun cwyn ffurfiol gan y cyngor neu achos cyfreithiol
- Yn ymwneud â mater lle mae hawl apelio eisoes
- Yn ymwneud â phenderfyniad cynllunio neu drwyddedu penodol ac unigol. Caiff 'deisebau' o'r fath eu cyfeirio at y Swyddog neu'r Pwyllgor perthnasol yn unol â'r gweithdrefnau presennol ar gyfer cynrychioliadau
- Pan ddaw mwy nag un ddeiseb i law, a phob un yn cefnogi'r un canlyniad yn ymwneud ag un mater, cynghorir y cyflwynwyr i gyfuno'r deisebau.
- Pan gyflwynir deiseb mewn ymateb i ymgynghoriad cyhoeddus sy'n cael ei redeg gan y Cyngor, caiff y ddeiseb ei chydnabod fel rhan o'r broses honno, a'i hystyried ynghyd ag ymateb arall i'r ymgynghoriad. Ni fydd y Cyngor o reidrwydd yn ymateb i'r ddeiseb ar wahân yn yr achos hwn
- Materion sy'n destun gofynion statudol rhagnodedig, megis newidiadau i drefniadau llywodraethu e.e. maer etholedig
- Gwybodaeth a ddiogelir gan orchymyn llys (e.e. pwy yw plant mewn anghydfodau cadw) neu yn unol ag unrhyw ddeddfiad arall
- Bod y ddeiseb yn cynnwys enwau swyddogion unigol cyrff cyhoeddus
- Bod y ddeiseb yn cynnwys enwau unigolion, neu wybodaeth y gellir eu hadnabod yn hawdd, mewn perthynas â chyhuddiadau troseddol
- Yn ystod y chwe wythnos cyn etholiad ni all awdurdodau lleol gyhoeddi unrhyw ddeunydd a all gefnogi unrhyw blaid wleidyddol neu safbwynt a all fod yn gysylltiedig ag unrhyw blaid wleidyddol
- Ni chaiff deisebau sy'n codi honiadau o gamymddwyn gan Gynghorwyr eu hystyried dan y Cynllun.

Gall fod yn amhriodol i'r Cyngor ymdrin â rhai deisebau yn ystod cyfnodau o gyfyngiadau, megis yn union cyn etholiadau neu refferendwm. O dan y fath amgylchiadau hysbysir trefnydd y ddeiseb o pryd y bydd y ddeiseb yn cael ei hystyried, neu pan fydd unrhyw ddeunydd yn ymwneud â hi'n cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor. O dan yr amgylchiadau hyn, byddwn yn cysylltu i egluro'r sefyllfa i chi a thrafod yr amserlen ddiwygiedig a allai fod yn berthnasol.

Caiff deisebau sydd y tu allan i feini prawf y Cynllun eu trin fel gohebiaeth a'u hanfon i'r maes gwasanaeth perthnasol am ymateb. Bydd gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol ddisgresiwn a hyblygrwydd i benderfynu sut i ymateb i'r ohebiaeth hon er mwyn gallu cymryd y camau priodol i ymateb i'r cais.

<u>Beth allaf ei wneud o deimlo nad chafodd y ddeiseb ei thrin yn briodol?</u>

Os teimlwch nad ydym wedi ymdrin yn briodol â'ch deiseb, mae gan drefnydd y ddeiseb yr hawl i ofyn am adolygiad o'r camau y mae'r Cyngor wedi'u cymryd mewn ymateb i'ch deiseb. Os cafodd eich deiseb ei hystyried gan swyddogion a ymatebodd iddi, cysylltwch â'r Cyngor drwy Broses Gwyno Gorfforaethol y Cyngor sydd ar gael ar wefan y Cyngor er mwyn mynegi eich pryderon. Os cafodd eich deiseb ei hystyried a'i thrafod yn y Cyngor Llawn, yna

gofynnwch am atgyfeiriad i'r Swyddog Monitro a fydd yn ystyried y ffordd orau o ymateb, yn dibynnu ar natur y pryderon. E-bostiwch:
cabinet_committee@bridgend.gov.uk

Dewisiadau amgen i gyflwyno deiseb

Mae gan y Cyngor ddiddordeb bob amser yn eich adborth am ein gwasanaethau neu sut y gallwn weithio gyda'n partneriaid i wella pethau o fewn ein Bwrdeistref Sirol. Os teimlwch, ar ôl darllen y Cynllun hwn, nad deiseb yw'r ffordd fwyaf priodol o gyfathrebu, mae nifer o ffyrdd eraill y gallwch chi ddweud eich dweud, gan gynnwys:

• Ysgrifennu at yr Aelod Cabinet neu'r Uwch Swyddog priodol
• Cysylltu â'ch Cynghorydd Ward lleol
• Ymateb i ymgynghoriad
• Gwneud cwyn i ni
• Gwneud awgrym trwy wefan y Cyngor
• Gofyn cwestiwn yn y Cyngor neu siarad yng nghyfarfodydd y Cyngor a'i Bwyllgorau.

Os ydych yn dymuno cwyno am y Cyngor, gallwn eich sicrhau y bydd materion o'r fath yn cael eu datrys cyn gynted â phosibl. Os yw eich problem yn ymwneud â gwasanaeth y Cyngor ceisiwch siarad ag aelod o staff, oherwydd efallai y gallant ddatrys y mater yn syth.

Polisi Preifatrwydd

Y Cyngor yw'r Rheolydd Data ar gyfer gwybodaeth bersonol a gesglir mewn perthynas â chyfleuster e-ddeisebau'r Cyngor ac ar gyfer deisebau papur.

Yn dilyn cyfnod o 28 diwrnod ar ôl i'r Cyngor ymateb yn ffurfiol, caiff pob llofnod ar ddeiseb ei dileu, oni bai bod trefnydd y ddeiseb wedi gofyn am adolygiad yn ystod y cyfnod hwnnw. Fodd bynnag, os dymunwch i'ch enw gael ei ddileu cyn hynny, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data drwy foi@bridgend.gov.uk.

Adolygu
Caiff telerau ac amodau Cynllun Deisebau'r Cyngor eu hadolygu o bryd i'w gilydd a'u diwygio.